**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

15 Ionawr 2019

Annwyl Mike

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd, ynghylch adroddiad y pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20.

Ar ran Hannah Blythyn AC, y cyn Weinidog dros yr Amgylchedd a minnau, mae'r ymateb ffurfiol sydd ei angen i'r 31 o argymhellion wedi'i amgáu. Mae hefyd yn nodi ar gais argymhelliad 26 y Pwyllgor y bydd rhagor o ymatebion ar gynnydd ar gael mewn chwe mis.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn dwyn y teitl Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

---

### Nodir isod yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:

### Argymhelliad 1

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor hwn yn ei hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19, sef, "er mwyn dangos sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi sail i broses y gyllideb, dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori asesiad yn erbyn ei hamcanion llesiant yn ei phroses asesu effaith". Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae ei dull o ymdrin â chyllideb ddrafft 2019-20 yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor.

### Ymateb: Derbyn

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor hwn yn ei hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19, sef, "er mwyn dangos sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi sail i broses y gyllideb, dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori asesiad yn erbyn ei hamcanion llesiant yn ei phroses asesu effaith". Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae ei dull o ymdrin â chyllideb ddrafft 2019-20 yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor.

Mae rhaglen ar gyfer llywodraeth Llywodraeth Cymru sef Symud Cymru Ymlaen 2016-21, a'r strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb, yn disgrifio blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer cyrraedd ei nod tymor hir o greu Cymru ffyniannus a diogel; iach ac egnïol; gwlad uchelgeisiol sy'n dysgu, a gwlad unedig sydd wedi'i chysylltu. Maen nhw'n egluro sut y byddwn yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n hamcanion llesiant o sicrhau'r effaith fwyaf gyda llai o adnoddau. Mae adroddiad blynyddol Ffyniant i Bawb yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni ein hamcanion llesiant.

Ers dechrau'r broses gyllidebu, rydym wedi canolbwyntio ar sut y gallwn wneud mwy i sefydlu'r egwyddorion a'r pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhroses y gyllideb. Mae'r Ddeddf yn chwarae rôl sylfaenol o ran tywys proses y gyllideb i sicrhau ein bod, fel llywodraeth, yn meddwl am y tymor hir; yn gweithio gyda phobl a chymunedau; yn gweithredu mewn modd ataliol i geisio rhwystro problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf a mabwysiadu dull sector cyhoeddus, traws-lywodraeth a mwy cydgysylltiedig o ddatrys problemau.

Eleni cyflwynir ein cynigion cyllideb manwl fel eu bod yn gyson â'n hamcanion llesiant, ac roedd yr asesiad integredig strategol o effaith y dyraniadau hyn hefyd yn gyson â hyn. Wrth i'n dull gweithredu barhau i esblygu ac aeddfedu, rydym wedi cynnwys yn ein dwy ddogfen Gyllideb ddrafft gyfres o astudiaethau achos i ddangos sut yr ydym yn sefydlu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhroses y gyllideb a sut y mae'n tywys ein gweithgareddau ac yn rhoi sail i'n penderfyniadau.

Fel y dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, mae'r Ddeddf yn rhywbeth sy'n darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer asesu effaith strategol. Mae ein hofferyn asesu effaith integredig a lansiwyd ym mis Gorffennaf wedi integreiddio ein hasesiadau presennol drwy ddefnyddio fframwaith y Ddeddf. Rydym yn cydnabod bod dull

integredig o asesu effaith yn hanfodol i fodloni gofynion y Ddeddf ac i weithio tuag at gyflawni'r Nodau Llesiant yng Nghymru. Bydd yr offeryn hwn hefyd yn dangos tystiolaeth o sut yr ystyriwyd y pum ffordd o weithio drwy gydol y broses.

## Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw ymgynghori â rhanddeiliaid a wnaeth er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer datblygiad y gyllideb ddrafft. Os na ddigwyddodd unrhyw ymgynghori, dylai Llywodraeth Cymru egluro pam.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sail i'r broses o gynllunio'r gyllideb ledled y portffolio, ac rydym wedi canolbwyntio ar sut gallwn ni gymryd camau pellach i sefydlu egwyddorion a phum ffordd o weithio'r Ddeddf yn y broses gyllidebu. Mae hyn yn golygu bod y Ddeddf yn chwarae rhan hollbwysig o ran arwain y broses gyllidebu er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio gyda phobl a chymunedau; a'n bod ni'n defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o fynd i'r afael â materion ar draws y llywodraeth ac ar draws sectorau.

Er enghraifft, mae'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yn dystiolaeth o gynnwys rhanddeiliaid yn y Grant 3ydd Sector yma. Defnyddiwyd amrywiaeth o dystiolaeth i roi sail i'r broses o newid y dull cyllidol ledled y Cynlluniau Grant Amgylcheddol blaenorol, gan gynnwys tystiolaeth o Swyddfa Archwilio Cymru ac adborth ar y gwerthusiadau o werthusiad y Grant Craidd. Gofynnwyd i'r trydydd sector ac awdurdodau lleol roi eu barn ac roeddent o blaid creu'r grant ar y cyd.

Caiff y cyllidebau Gwastraff eu rheoli ar y cyd gan awdurdodau lleol a WRAP. Er enghraifft, mae'r Rhaglen Newid Gydweithredol (CCP) yn rhaglen a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru yn 2010, mewn partneriaeth â'r CLlLC, er mwyn datblygu gwasanaethau rheoli gwastraff cynaliadwy i awdurdodau lleol. Nawr, mae'r rhaglen yn cael ei haddasu er mwyn cynnwys elfen a fydd yn golygu gweithio ar newid ymddygiad er mwyn annog y cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn ailgylchu a symud awdurdodau lleol yn nes at eu nod o ailgylchu 70% yn gyflymach.

Caiff y Rhaglen Datblygu Gwledig, sef buddsoddiad o £26.5m o refeniw yn 2019-20 a £19.7m o gyfalaf yn ystod 2019-2021, ei rhoi ar waith drwy ymgysylltu, cydgynhyrchu a chydweithio.

Rydyn ni'n gwneud cynnydd da er mwyn sicrhau ein bod yn sefydlu egwyddorion y Ddeddf Llesiant, gan dalu sylw penodol i gydweithio ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn ein holl benderfyniadau ynghylch y gyllideb.

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y rhesymau dros beidio â chynnwys datgarboneiddio fel chweched flaenoriaeth Ffyniant i Bawb.

**Ymateb: Derbyn**

Hepgorwyd y chweched maes blaenoriaeth yn y papur tystiolaeth drwy gamgymeriad. Fodd bynnag, mae datgarboneiddio'n elfen hanfodol ym mhob un o'r meysydd portffolio a gofnodwyd yn y papur tystiolaeth. Rydyn ni am roi lle canolog iawn i ddatgarboneiddio ym mhopeth a wnawn a sicrhau bod y Llywodraeth yn atebol amdano.

Ym mis Mawrth, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei Gynllun Carbon Isel cyntaf, a fydd yn cynnig sut y bydd Cymru'n lleihau ei hallyriadau carbon ac yn cadw at ei chyllideb garbon gyntaf.

**BREXIT**

**Argymhelliad 4**

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i sicrhau y bydd trefniadau i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer ffermio a rheoli tir yn y dyfodol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gwledydd datganoledig ac y bydd parch cydradd rhwng y partneriaid.

**Ymateb: Derbyn**

Mae DEFRA a Gweinidogion y Weinyddiaeth Ddatganoledig yn cwrdd yn rheolaidd – y cyfarfod pedairochrog ar 14 Ionawr fydd eu deuddegfed cyfarfod ers mis Tachwedd 2016.

Byddwn yn parhau i ofyn am ymrwymiad clir gan Lywodraeth y DU i ddatblygu trefniadau mewn partneriaeth ac na ddylai Cymru – fel y dywedasom o'r dechrau – golli'r un geiniog o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Cawsom addewid o hyn cyn refferendwm yr UE ac rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU sicrhau bod hyn yn digwydd.

Rydym yn edrych ymlaen at y broses o adolygu dyraniadau o fewn y DU, a fydd yn cychwyn fis Ionawr 2019. Mae'n bwysig bod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal mewn modd amserol oherwydd mae'r gymuned ffermio, wrth reswm, yn bryderus ynghylch y dyfodol. Byddwn yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i egluro cylch gorchwyl yr adolygiad, a sut bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio yn enwedig. Mae'n rhaid i Gymru gael cyllid teg o ganlyniad i'r broses hon.

**Argymhelliad 5**

Dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad y bydd cyllid newydd, ychwanegol ar gael i sefydlu'r cynlluniau newydd.

**Ymateb: Gwrthod**

Bydd y cynlluniau newydd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ond ni allwn ymrwymo i gyllid ychwanegol neu newydd cyn gwybod beth fydd effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd, neu cyn gwybod beth fydd canlyniad adolygiad o wariant 2019.

## POLISI AMAETH CYMRU YN Y DYFODOL

### Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd pellach fod digon o gyllid ar gael yng nghyllideb ddrafft 2019-20 er mwyn gwneud gwaith paratoadol, gan gynnwys modelu manwl, asesiadau effaith, a sefydlu cynlluniau peilot.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod angen cwblhau gwaith paratoi pwysig cyn gallu sefydlu cynlluniau newydd. Fel y nodir yn Brexit a'n Tir, ni fydd unrhyw daliadau fferm yn cael eu newid heb ymgynghori pellach. Bydd gwaith dadansoddi pellach, gan gynnwys modelu ac asesu effaith, yn gwbl allweddol. Bydd angen ariannu'r gwaith dadansoddi hwn ac mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i sicrhau y bydd yn cael ei ariannu'n ddigonol.

Derbyniwyd dros 12,300 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae'r rhain yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Unwaith y cwblheir y broses hon, bydd Llywodraeth Cymru'n nodi'r camau nesaf yn fwy manwl. Bydd hyn yn cynnwys mwy o wybodaeth am natur y gwaith dadansoddi, sut y bwriedir ei ariannu a rôl bosibl cynlluniau peilot.

### Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru, a hynny ar fyrder, gyflawni asesiad o effaith y penderfyniad i ehangu mynediad i'r cynlluniau arfaethedig o bob math, gan amrywio o ffermwyr i reolwyr tir.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodir uchod, mae Brexit a'n Tir yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i wneud gwaith dadansoddi priodol, gan gynnwys modelu ac asesu effaith. Bydd angen gwneud rhagdybiaethau priodol ynghylch polisïau'r dyfodol fel rhan o unrhyw waith dadansoddi yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i bennu'r rhagdybiaethau hyn. Bydd angen i hyn gynnwys pwy fydd yn gymwys ar gyfer y cynlluniau.

## GWASANAETHAU CYMORTH FFERMIO

### Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni asesiad o'r adnoddau y bydd eu hangen er mwyn sicrhau digon o gapasiti cynghori cyn dechrau'r broses o drosglwyddo i'r cynlluniau newydd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad ar gyfer 2019-20 a 2020-21.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd lefel yr adnoddau ar gyfer capasiti cynghori'n dibynnu ar benderfyniadau polisi ynghylch natur y cynlluniau newydd; bydd y cyfnod y bydd angen adnoddau ar ei gyfer yn dibynnu ar benderfyniadau polisi ynghylch yr amserlen drosglwyddo. Bydd asesiad o'r ddau beth uchod yn cael ei wneud ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd dadansoddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor pan fyddwn yn gwybod beth fydd manylion a gofynion tebygol y cynllun.

## LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL

### Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion pellach ynglŷn â sut y bydd unrhyw waith paratoi cysylltiedig â sefydlu corff rheoleiddio amgylcheddol newydd yn cael ei ariannu o fewn y dyraniadau presennol yng nghyllideb ddrafft 2019-20.

### Ymateb: Derbyn

Mae'r gwaith o ystyried beth fydd cwmpas priodol corff o'r fath, ac ar ba lefel y dylai weithredu, yn parhau. Byddai'n gynamserol gwneud unrhyw benderfyniadau pendant ynglŷn â'r corff, ac unrhyw gostau, nes y byddwn wedi ymgynghori ynghylch ei gwmpas a'i rôl, a gofyn am farn rhanddeiliaid. Byddwn yn cyhoeddi ein hymgynghoriad yn y Flwyddyn Newydd. Pan fydd y cwmpas, y swyddogaethau a'r dosbarthiad daearyddol wedi'u pennu, rhoddir manylion y costau.

### Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar y rhesymau pam y mae'n credu fod Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn fodel priodol ar gyfer sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol.

### Ymateb: Derbyn

Sefydlwyd rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyda phwrpas, rôl a strwythur cyfansoddiadol penodol, a oedd yn briodol i gefnogi'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy sydd gan gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Byddai angen sefydlu unrhyw gorff goruchwylio amgylcheddol newydd gyda'i bwrpas a'i rôl ei hun a byddai angen i'w fframwaith cyfansoddiadol fod yn briodol ar gyfer ei swyddogaethau.

O'r cyrff annibynnol sydd eisoes yn bodoli, ymddengys mai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r un tebycaf o ran cyflawni swyddogaeth debygol corff goruchwylio, ac felly mae'n gorff priodol i'w ddefnyddio at ddibenion cymharu. Fodd bynnag, dim ond un model yw hwn ac rydym yn ystyried amrywiaeth o fodelau i helpu i ganfod y fframwaith cyfansoddiadol mwyaf priodol ar gyfer corff goruchwylio amgylcheddol newydd.

Byddai angen i rôl unrhyw gorff goruchwylio amgylcheddol newydd ar gyfer Cymru fod yn gyson â'r cyrff atebolrwydd presennol sydd eisoes yn cynrychioli buddiannau Cymru, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

**STAFFIO BREXIT**

**Argymhelliad 11**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion ynghylch sut a phryd y bydd yn penderfynu a ddylid cadw'r swyddi newydd a grëwyd i gefnogi gwaith Brexit ar ôl 2020. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir ynghylch a fydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud mewn pryd i roi sail i'r cylch nesaf o broses gynllunio'r gyllideb.

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd mae pen draw i'r cyllid ar gyfer y swyddi hyn, ond mae prosesau recriwtio ar waith er mwyn galluogi'r rhain i fod yn swyddi parhaol os barnwn fod hynny'n briodol yn nes at yr amser.

Bydd lefelau staffio'n amlwg yn dibynnu ar ganlyniad yr Adolygiad o Wariant, yn ogystal â thrafod y sefyllfa dyrannu cyllid yn gyffredinol â'r Prif Weinidog a'r Cabinet newydd, ac ystyried yr amgylchiadau diweddaraf (gan gynnwys y sefyllfa o ran Brexit).

Dylem fod mewn sefyllfa well i farnu'r goblygiadau staffio tymor canolig a fydd yn deillio o Brexit ar ôl mis Mawrth.

**DATGARBONEIDDIO**

**Argymhelliad 12**

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei chynllun cyflawni carbon, ac unrhyw fersiynau pellach yn y dyfodol, i'r Pwyllgor hwn ac i Bwyllgorau perthnasol eraill yn y Cynulliad, ar ffurf drafft er mwyn rhoi sail i ddatblygiad y Cynulliad.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Er nad yw deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol ac nad yw'n arfer ar lefel Llywodraeth y DU, rydw i wedi cytuno i anfon y Cynllun Cyflenwi Carbon Isel at y Pwyllgor cyn iddo gael ei gyhoeddi. Oherwydd yr amserlenni byr a'r broses llywodraethu dyladwy, ni allwn ei rannu ynghynt. O ran cyhoeddiadau yn y dyfodol, y Llywodraeth fydd yn gyfrifol am bennu hynny ar yr adeg, oherwydd bydd angen cyflawni pob cynllun newydd yn ystod blwyddyn gyntaf y Llywodraeth newydd.

**Argymhelliad 13**

Ochr yn ochr â'i chynllun cyflawni carbon, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi dadansoddiad cost a budd manwl o'r holl gamau gweithredu yn y cynllun.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn adlewyrchu bwriad y Cynulliad Cenedlaethol o ran y cynigion a'r polisïau ar gyfer bodloni cyllidebau carbon ac nid yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn cyhoeddi asesiad o gost ac effaith pob ymyriad. Mae hon yn debyg i'r sefyllfa yn yr Alban ac ar lefel y DU. Disgwylir i adrannau ystyried cost ac effaith yr holl ymyriadau fel rhan o'r broses datblygu polisi. Hefyd, byddwn yn asesu cyfraniad y Cynllun at y nodau llesiant cenedlaethol ac fe fyddwn yn cyhoeddi arfarniad o gynaliadwyedd ochr yn ochr â'r Cynllun.

**Argymhelliad 14**

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei dadansoddiad manwl o amcangyfrifon Tlodi Tanwydd, sydd i'w disgwyl yn fuan yn 2019, i nodi amserlen ar gyfer dileu tlodi tanwydd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn cyn gynted ag y bydd wedi gwneud hyn.

**Ymateb: Derbyn**

Mae amcangyfrifon diwygiedig i asesu lefel y tlodi tanwydd yng Nghymru wedi eu comisiynu. Disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn haf 2019 a byddant yn rhoi sail i ddatblygiad yr amcanion seiliedig ar ganlyniadau a luniwyd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru yn well o 2019 ymlaen. Disgwylir i'r amserlen ar gyfer datblygu'r amcanion seiliedig ar ganlyniadau gael ei chyhoeddi'n fuan yn 2019.

**Argymhelliad 15**

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei hamserlen ar gyfer datblygu cynllun tlodi tanwydd newydd. Dylai gyflwyno ei chynllun tlodi tanwydd i'r Pwyllgor hwn, ac i Bwyllgorau perthnasol eraill yn y Cynulliad, ar ffurf drafft er mwyn rhoi sail i ddatblygiad y Cynulliad.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft o amcanion seiliedig ar ganlyniadau er mwyn ymgynghori â phwyllgorau statudol a'r grŵp trawsbleidiol ynghylch tlodi tanwydd.

**Argymhelliad 16**

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar adeg briodol ynghylch a yw wedi penderfynu parhau i ariannu'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai ar ôl mis Mawrth 2019.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ymestyn y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai am ddwy flynedd arall tan fis Mawrth 2021.

**ADNODDAU NATURIOL CYMRU**

**Argymhelliad 17**

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynglŷn â chynnydd yng nghyswllt sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cyllid a fydd yn codi yn sgil gwella'r cronfeydd dŵr dynodedig yn unol â gofynion Deddf Cronfeydd Dŵr 1975.

**Ymateb: Derbyn**

Mae trafodaethau yn cael eu cynal er mwyn sicrhau cyllid ychwanegol sy'n codi yn sgil y goblygiadau cysylltiedig â Deddf Cronfeydd Dŵr 1975. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ynglŷn â'r canlyniad ym mis Mehefin 2019.

**Argymhelliad 18**

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ar gynnydd y trafodaethau'n ymwneud ag ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys opsiynau fel bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cynhyrchu mwy o incwm ac ar gyfer setliad ariannol mwy tymor hir.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae hon yn drafodaeth sy'n parhau rhwng swyddogion, Cadeirydd Dros Dro a Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, oherwydd mae'r corff eisoes yn gallu cynhyrchu incwm. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor erbyn 27 Mai 2019.

**Argymhelliad 19**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw ddyletswyddau newydd neu ychwanegol y mae'n disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru eu gweithredu dros y cyfnod cyllidebol hwn a nodi'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu at y dibenion hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd yr wybodaeth yma ar gael yn y llythyr cylch gwaith y byddaf yn ei anfon at Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwedd mis Mawrth 2019.

**Argymhelliad 20**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion pellach am y £0.7m ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu yng nghyswllt canlyniad ymarfer gwerthuso swyddi Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Ym mis Chwefror 2019, gyda fy nghefnogaeth, cytunodd ysgrifennydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd at Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, i newid y telerau ac amodau ar gyfer staff a gynigiwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, fel rhan o'r cytundeb hwnnw, gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru gyfuno'r dyfarniad cyflog yn gyflog yn 2018/19. Gofynnodd y Gweinidog i'r Prif Weithredwr sicrhau bod ei staff yn trafod goblygiadau ariannol hyn. Cytunwyd ar ffigur o £0.7m a'i ychwanegu at GIA craidd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2018/19.

**TB MEWN GWARTHEG**

## Argymhelliad 21

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ym mis Ebrill 2019 ar gynnydd y Rhaglen i Ddileu TB mewn Gwartheg. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar faint yn llai o achosion o TB mewn gwartheg sydd wedi bod, a faint o iawndal a dalwyd.

**Ymateb: Derbyn**

Rwyf wedi ymrwymo i wneud datganiad ynghylch cynnydd y Rhaglen ddiweddaraf ar Ddileu TB yn Ebrill 2019 pan fydd ystadegau ar gyfer y flwyddyn galendr lawn a'r Dangosfwrdd TB ar gael. Bydd y datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch achosion o TB yng Nghymru ac yn adrodd ar agweddau allweddol ar y Rhaglen, gan gynnwys y trefniadau iawndal ar gyfer TB.

## Argymhelliad 22

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd y cynlluniau peilot i frechu rhag TB. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am eu cost a'u graddfa disgwyliedig.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor hwn a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd yr holl brosiectau brechu rhag TB unwaith y cadarnheir y gwariant yn derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-2019. Mae'r gwariant drafft ar grantiau brechu moch daear hyd yma, ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, yn £46,000 ledled ardal o 16.88km2.

Mae'r gwaith ar brosiect brechu Penrhyn Gŵyr yn parhau ac mae grŵp brechu Penrhyn Gŵyr yn y broses o sicrhau cyllid y mae OCVO wedi ymrwymo i gyfrannu arian cyfatebol iddo – hyd at uchafswm o £100,000 y flwyddyn am bedair blynedd. Mae Penrhyn Gŵyr yn 188km2 a bydd y gwaith brechu'n ymestyn dros ardal hyd at 100km2.

## ANSAWDD YR AER

### Argymhelliad 23

Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar faint sy'n manteisio ar gronfa Ansawdd yr Aer. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr awdurdodau lleol a fanteisiodd ar y gronfa a pha gynnydd a wnaed o ganlyniad i'r cyllid hwnnw. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd egluro sut y bydd yn gwerthuso pa mor effeithiol y defnyddiwyd y cyllid a ddyrannwyd o'r gronfa.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Gronfa Ansawdd yr Aer wedi ei blaenoriaethu i'w defnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Caerdydd. Dyma'r unig awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi cael cyfarwyddyd i fynd i'r afael â gormodedd o nitrogen deuocsid yn yr aer. Hyd yma mae'r awdurdodau wedi cyflwyno eu hadroddiadau cwmpasu a'u cynlluniau interim. Maen nhw bellach yn datblygu achosion busnes llawn i gefnogi'r mesurau sydd ganddynt mewn golwg i gydymffurfio â'r trothwyon cyfreithiol cyn gynted â phosib. Rhaid cael y cynlluniau terfynol cyn diwedd Mehefin 2019.

Hyd yma, dyfarnwyd cyllid o £1.1m i'r awdurdodau ac mae grant o £117k wedi'i hawlio. Defnyddiwyd y cyllid hwn i gefnogi eu hastudiaethau ymarferoldeb, gan gynnwys gwaith modelu ac asesu ansawdd yr aer.

Bydd angen y rhan fwyaf o'r cyllid yn 2019/20 a 2020/21 pan fydd yr awdurdodau'n cyflwyno'r mesurau i sicrhau y cydymffurfir yn gynt. Gallai'r mesurau hyn gynnwys, er enghraifft, Parth Aer Glân y codir tâl i ddod iddo, lle byddai angen gosod seilwaith fel camerâu ac arwyddion.

Sefydlwyd panel adolygu arbenigol i roi sicrwydd annibynnol i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r cynlluniau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cael eu hariannu gan y gyllideb hon.

### Argymhelliad 24

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei Chynllun Aer Glân i'r Pwyllgor hwn ar ffurf drafft, er mwyn i'r Pwyllgor roi sail i'w ddatblygiad.

**Ymateb: Derbyn**

Yn sgil y gwaith sy'n parhau yng nghyswllt ystod o fesurau Ansawdd yr Aer, bydd drafft o'r Cynllun Aer Glân yn cael ei rannu â'r Pwyllgor erbyn mis Tachwedd 2019.

Bydd ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn dechrau'n gynnar yn 2019 i nodi pa gamau y bydd angen eu cymryd o dan y cynllun. Mae croeso i'r Pwyllgorau gyfrannu at y broses hon.

**Argymhelliad 25**

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o ran sefydlu Canolfan Asesu a Monitro Ansawdd yr Aer ar gyfer Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Dros yr haf, aeth Llywodraeth Cymru ati i sefydlu Rhaglen Aer Glân Cymru i leihau baich ansawdd aer gwael ar iechyd pobl ac ar yr amgylchedd naturiol. Yn y tymor byr, bydd yn helpu i gyflawni'r camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â'n hymrwymiadau ar gyfer ansawdd yr aer o dan ddeddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd.

Bydd y rhaglen hon yn ystyried tystiolaeth ac yn datblygu a gweithredu'r camau sy'n ofynnol ar draws holl adrannau'r llywodraeth gan gynnwys yr amgylchedd, iechyd, addysg, trafnidiaeth, datgarboneiddio, llywodraeth leol, cynllunio, amaethyddiaeth a diwydiant i sicrhau Aer Glân i Gymru. Sefydlwyd prosiect Tystiolaeth, Arloesi a Gwella o dan y Rhaglen i geisio gwella ein dealltwriaeth o lygredd aer yng Nghymru er mwyn cyfrannu at ddatblygu polisi a hyrwyddo gwelliannau i ansawdd yr aer yng Nghymru lle y mae eu hangen fwyaf. Yn y pen draw bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy greu Canolfan Asesu a Monitro Ansawdd yr Aer, er y bydd y gweithredu'n digwydd drwy ddull graddol o gaffael tystiolaeth i ddechrau.

Bydd sefydlu Canolfan Asesu a Monitro Ansawdd yr Aer yn hwyluso dull mwy rhagweithiol o reoli ansawdd yr aer yng Nghymru, gan symud at fesurau atal yn hytrach na lliniaru. Oherwydd bod hwn yn gam sylweddol, mae angen ei ddylunio a'i gynllunio'n ofalus er mwyn bod yn effeithiol.

Mae cynllun prosiect ac achos busnes wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer y ffrwd waith hon, a bydd bwrdd prosiect yn cwrdd i roi cyngor ac i gefnogi'r camau y bydd angen eu cymryd i gefnogi datblygiad y ganolfan.

Disgwylir y bydd y gwaith o ddatblygu'r ganolfan yn dechrau cyn diwedd 2019.

## RHEOLI PERYGLON LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL

**Argymhelliad 26**

Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar faint sy'n manteisio ar y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol (CRMP) o fewn chwe mis. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am yr awdurdodau lleol a fanteisiodd ar y gronfa a pha gynnydd a wnaed o ganlyniad i'r cyllid hwnnw. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd egluro sut y bydd yn gwerthuso pa mor effeithiol y defnyddiwyd y cyllid a ddyrannwyd o'r gronfa.

**Ymateb: Derbyn**

Gall Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y cynlluniau hynny sydd eisoes wedi derbyn cymorth i gynhyrchu eu hachosion busnes, a pha rai sydd wedi eu cynnwys yn y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol. Lle'r awdurdod lleol wedyn fydd sicrhau'r cyllid a chyflawni dros y tair blynedd. Bydd fy swyddogion yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar gynnydd y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.

Mae'r rhaglen wedi cwblhau ei hadolygiad cyntaf ac mae'n wynebu gwerthusiad parhaus gyda chefnogaeth Bwrdd y Rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni ei nodau ac yn lleihau'r risg i gymunedau arfordirol. Adroddwyd ar ddull y Llywodraeth hon o reoli risgiau arfordirol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y naill yn 2016 a'r llall yn 2017.

### Argymhelliad 27

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei chynnydd o ran denu ffynonellau buddsoddi eraill ar gyfer ymyriadau rheoli llifogydd a risgiau arfordirol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae cyllid partneriaeth bellach wedi'i gynnwys yn y fethodoleg flaenoriaethu ar gyfer y rhaglen rheoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol, y cytunwyd arni gan Fwrdd y Rhaglen yn gynharach yn 2018. Rydym eisiau deall yn well pa gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau cyfraniad gan bartneriaid ac wedi adnabod hyn fel mesur yn y Strategaeth Genedlaethol sydd ar y gorwel, yn dilyn trafodaethau â'r Awdurdodau Rheoli Risg ac argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad yn 2017.

## CYNLLUNIO

### Argymhelliad 28

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynglŷn â'r amserlen sydd ganddi mewn golwg ar gyfer y Mesur caniatâd dros ynni.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae gwaith paratoadol ar Fil Seilwaith a Chynllunio'n cael ei wneud yn defnyddio'r cyllidebau Cynllunio a Rheoleiddio presennol. Fodd bynnag, oherwydd blaenoriaethau eraill y Llywodraeth, nid yw'r Bil yn rhan o Raglen Ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth Cymru. Bydd diwygiadau a chyhoeddiadau pellach ar Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn cael eu gwneud maes o law.

### Argymhelliad 29

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â beth fydd goblygiadau lleihau cyllideb yr arolygiaeth gynllunio i waith yr arolygiaeth gynllunio. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno ei chynlluniau ar gyfer y maes polisi hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllideb o £2.52m i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) ar gyfer ei gwaith yng Nghymru, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei sicrhau drwy godi tâl am ei gwaith, fel archwilio cynlluniau datblygu ac ymchwiliadau prynu gorfodol. Mae'r gyllideb yn talu am gost uniongyrchol yr Arolygydd dynodedig ar gyfer Cymru, staff y swyddfa ym Mharc Cathays, costau llety a chanran o gostau gorbenion yr Arolygiaeth Gynllunio i dalu am y cyd-wasanaethau canolog, gan gynnwys cyllid, Adnoddau Dynol a TGCh. Ar hyn o bryd mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn cael ei harwain gan Gyfarwyddwr Cymru, sy'n adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr ac yn atebol i'r Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd, mae Prif Weithredwr yr Arolygiaeth Gynllunio yn mynd drwy broses o ailstrwythuro'r sefydliad, sy'n debygol o arwain at rywfaint o arbedion o ran gorbenion y ffioedd ar gyfer Cymru. Oherwydd natur seiliedig ar alw'r llwyth achosion, mae'n anodd darogan faint o incwm fydd yn cael ei gynhyrchu drwy godi tâl am waith. Gallai olygu dros 10% o wahaniaeth rhwng yr alldro mewn blwyddyn neilltuol a dyraniad y gyllideb. Gellir bodloni'r gostyngiad disgwyliedig yn ffigur y gyllideb yn unol â'r paramedrau cyllidebu arferol.

Codwyd y galw am Arolygiaeth ar wahân fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch Deddf Cynllunio 2015 a chafodd hyn ei wrthod bryd hynny oherwydd nad oedd digon o dystiolaeth. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn adolygu'r penderfyniad hwnnw ers hynny. Mae'r ymarfer ailstrwythuro sy'n cael ei gynnal gan Brif Weithredwr yr Arolygiaeth Cynllunio ar hyn o bryd wedi arwain at ailystyried y safbwynt hwnnw. Mae'r opsiynau a'r costau ar gyfer darparu gwasanaeth ar wahân yng Nghymru yn cael eu hasesu ar hyn o bryd a byddant yn dibynnu ar ba fodel darparu gwasanaethau sy'n cael ei ddewis. Gan ystyried yr arbedion maint y ceir budd ohonynt ar hyn o bryd drwy fod yn elfen fechan o sefydliad mwy, mae costau gwasanaeth cwbl annibynnol yn debygol o godi.

## CYLLID Y TRYDYDD SECTOR

### Argymhelliad 30

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynglŷn ag unrhyw asesiad o effaith sydd wedi cael ei gynnal yng nghyswllt ei phenderfyniad i gyfuno nifer o grantiau er mwyn ffurfio un grant seiliedig ar brosiect, sef y "Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant". Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth fydd effaith y penderfyniad hwn yn ei barn hi.

**Ymateb: Derbyn**

Penderfynwyd llunio grant newydd drwy gyfuno'r grantiau blaenorol mewn ymateb i dystiolaeth a oedd yn dod i'r amlwg gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys y profiad a gafwyd yn sgil gweithredu'r cynlluniau grant blaenorol, a'r pwysau parhaus ar gyllidebau sylfaenol. Hefyd, roedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn nodi nad oedd y grantiau seiliedig ar bwnc a'r grantiau sector blaenorol yn cefnogi cyfeiriad y ddeddfwriaeth a'r polisi yn ddigon clir a bod angen eu cryfhau.

Mae datblygiad y grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yn gadarn yng nghyd-destun deddfwriaeth Cymru, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r grant newydd yn cefnogi'r gwaith o roi elfennau allweddol ar waith o fewn Polisi Adnoddau Naturiol Cymru, sydd wedi cynnal nifer o asesiadau effaith yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac wedi'u cyhoeddi.

Mae'r broses o lunio cynllun grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yn ystyried gofynion deddfwriaethol ehangach sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, Hawliau Plant, yr iaith Gymraeg a Bioamrywiaeth. Cafodd amryw o asesiadau effaith eu cynnal wrth ddatblygu'r grant. Roedd pob asesiad effaith yn mynd i'r afael ag amryw o faterion ar sail ffocws yr asesiad effaith, yn unol â'r dull cyffredinol a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hefyd, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal nifer o ddigwyddiadau dylunio ar y cyd ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid traws sector, yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r rheini a oedd wedi derbyn grantiau blaenorol er mwyn deall effaith y newid o'u safbwynt nhw a'u helpu i ddeall y grant newydd ac adnabod cyfleoedd yn y dyfodol.

Mae'r Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yn denu adnoddau ychwanegol sydd ar gael drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig. O ganlyniad i hynny, mae'r adnoddau sydd ar gael wedi cynyddu, gan roi lle i ragor o fuddsoddiad er mwyn cefnogi prosiectau traws sector cydweithredol. Mae'n ofynnol bod prosiectau yn rhoi tystiolaeth glir o ganlyniadau llesiant yn unol â'r saith nod llesiant, gan ddangos cyfraniad adnoddau naturiol at lesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae arwyddion cynnar yn dangos ymateb cadarnhaol i'r grant newydd yn sgil y cais cyntaf am gynigion.

Rhagwelir y bydd y grant newydd yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion, grwpiau, cymunedau, gwaith cydweithredol a chynaliadwyedd gweithgareddau. Bydd y rhaglen yn cryfhau adnoddau naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod gan Gymru ecosystemau amrywiol a chadarn sy'n cael eu rheoli i sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Daeth y cyfnod cyflwyno cais am gynigion ar gyfer y grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant i ben ar 3 Rhagfyr. Mae'r cais am gynigion wedi bod yn llwyddiannus dros ben ac fe gafwyd 83 o geisiadau gan amrywiaeth eang o gydweithrediadau traws sector, a rhai ohonynt yn cynnwys mwy nag un prosiect. Mae'r ceisiadau yn cael eu hasesu ar hyn o bryd a'r gobaith yw y bydd y prosiectau buddugol yn dechrau yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## GWASTRAFF

### Argymhelliad 31

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am ddyrannu £2.8m i "wrthdroi toriad blaenorol" mewn perthynas â'r Grant Penodol i Wastraff ar gyfer

Awdurdodau Lleol. Dylai hyn egluro diben y grant; y rhesymau dros y gostyngiad blaenorol; a'r rheswm dros wrthdroi'r gostyngiad.

**Ymateb: Derbyn**

Mae £2.8m wedi cael ei ailddyrannu i'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yn lle'r cyllid a gafodd ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Awdurdod Lleol. Mae'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yn helpu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau rheoli gwastraff cynaliadwy ac i ailgylchu mwy yn unol â thargedau gwastraff statudol Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.